

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Aseiad Lles Lleol 2022**

Adroddiad Cefndir

Cynnwys

1. Beth yw Aseiad Lles Lleol?	3
2. Aseiad Lles Lleol Caerdydd 2022	4
<ul style="list-style-type: none">• Methodoleg• Strwythur	
3. Sail dystiolaeth	6
<ul style="list-style-type: none">• Setiau Data ac Adroddiadau Partneriaid• Aseiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022• Arolygon• Adolygiadau ac Aseidiadau Statudol• Cyfyngiadau Data	
4. Ymgynghoriad	10
5. Y Camau Nesaf	11
Atodiad A - Adolygiadau ac Aseidiadau Statudol	12

1. Beth yw Asesiad Lles Lleol?

Yn sgil cyflwyno **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**¹ ('y Ddeddf'), gosodwyd y trefniadau partneriaeth sefydledig a ddatblygwyd yng Nghaerdydd ar sail statudol.

Rhoddodd y Ddeddf ddyletswydd ar gyrff allweddol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghaerdydd i gydweithio a sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)² i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y ddinas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Dan y Ddeddf, rhaid i BGC gyhoeddi Cynllun Lles Lleol bob 5 mlynedd, sy'n nodi amcanion a rennir ar gyfer gwella lles y ddinas. I roi sail tystiolaeth gadarn ar gyfer yr amcanion lles, rhaid i'r BGC gyhoeddi Asesiad Lles Lleol sy'n dwyn ynghyd farn gynhwysfawr ar les y ddinas a'i chymunedau.

Wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu amcanion lles y BGC, mae'r asesiad lles hefyd yn sicrhau bod BGC yn cyflawni ei ddyletswydd lles yn unol â'r ddeddf i gyfrannu at gyflawni'r saith nod lles ar gyfer Cymru:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnherth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.³

Bydd yr asesiad, sy'n asesu lles presennol ardal a'i heriau yn y dyfodol, hefyd yn helpu i lywio cynllun lles sy'n cael ei ddatblygu a'i ddarparu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf a'i phum ffordd o weithio, gan ganolbwyntio ar:

Y Tymor Hir - *Cydbwyso anghenion tymor byr tra'n diogelu ein gallu i ddiwallu anghenion hirdymor ein cymunedau hefyd.*

Atal - *Gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i gyflawni ein hamcanion.*

Integreiddio - *Ystyried sut y gallai ein hamcanion lles effeithio ar bob un o'r nodau lles, neu ar amcanion unigol partneriaid.*

Cydweithio – *Gweithredu ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni ein hamcanion lles.*

Cyfranogiad – *Cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r targedau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth Caerdydd.*

¹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 - yr hanfodion](#)

² Gallwch ddarllen mwy am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn www.cardiffpartnership.co.uk/?lang=cv

³ Darllenwch fwy am y saith nod lles [yma](#)

2. Asesiad Lles Lleol Caerdydd 2022

Yn 2018, cyhoeddodd BGC Caerdydd ei gynllun Lles Lleol cyntaf. Gan fod yn rhaid cyhoeddi cynllun diwygiedig bob 5 mlynedd, bydd yr asesiad hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun Lles nesaf y BGC fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Methodoleg

Ymgysylltu â Phartneriaid y BGC

Cytuno ar y prif setiau data a dadansoddi tueddiadau

- Cynhaliwyd gweithdy BGC ar y cyd rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg gyda swyddogion arweiniol y partneriaid ym maes data a pholisi er mwyn cytuno ar y setiau data i'w cynnwys yn yr asesiadau Lles Lleol ac i drafod tueddiadau cyfredol a disgwyliedig. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan Data Cymru.
- Yna dadansoddwyd tueddiadau o bob set ddata, gan ystyried adborth gan swyddogion arweiniol y partneriaid ym maes data a pholisi, i lywio'r gwaith o ddatblygu asesiadau Lles Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg. Nododd dadansoddiad o dueddiadau Caerdydd brif ganfyddiadau o dan bob set ddata, wedi'u croesgyfeirio ag adroddiadau partneriaid y BGC.

Adborth ar yr asesiad drafft

- Yn seiliedig ar y dadansoddiad o dueddiadau, dosbarthwyd asesiad Lles Lleol drafft i bartneriaid y BGC yn gofyn am sylwadau ynglŷn â sut roedd yn alinio â gwaith eu sefydliadau o ran y cryfderau a'r heriau:
 1. A ydych yn cydnabod asesiad Caerdydd?
 2. A yw'r asesiad yn cyd-fynd ag asesiad eich sefydliad eich hun, o ran y cryfderau a'r heriau?

Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022

Dylid darllen Asesiad Lles Lleol Caerdydd ochr yn ochr â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ategol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg (2022). Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB), sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cynnwys asesiad o'r anghenion am ofal a chymorth ymhlith trigolion Caerdydd a Bro Morgannwg, ac ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r angen hwnnw.

Strwythur

Mae asesiad Lles Lleol Caerdydd yn 2022 wedi'i strwythuro o amgylch y themâu canlynol a'r amcanion Lles yng nghynllun Lles Lleol presennol y BGC:

- Demograffeg
- Iechyd a Lles
- Amcan Lles 1: Mae Caerdydd yn lle gwyh i gael eich magu

- Amcan Lles 2: Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
- Amcan Lles 3: Cefnogi pobl allan o dlodi
- Amcan Lles 4: Cymunedau diogel, hyderus a grymus
- Amcan Lles 5: Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
- Amcan Lles 6: Mae Caerdydd yn tyfu mewn Ffordd Gadarn
- Amcan Lles 7: Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

Ac mae'n cynnwys y canlynol:

- **Crynodeb Gweithredol Caerdydd Heddiw** - crynodeb o'r materion allweddol yn adroddiad Caerdydd Heddiw
- **Adroddiad Caerdydd Heddiw** - mae'r asesiad yn cael ei ddwyn ynghyd yn fanwl yn yr adroddiad hwn yn ôl thema ac amcan lles
- **Dadansoddi data yn ôl thema ac amcan lles** - yn ogystal â thueddiadau dros amser a pherfformiad o gymharu â meysydd eraill, megis Awdurdodau Lleol Cymru a Dinasoedd Craidd y DU, mae'r dadansoddiad data hefyd yn cymharu Caerdydd yn ei chyfanrwydd â'i 'Arc Ddeheuol', sef ardal lle mae amddifadedd wedi'i ganoli yn y ddinas ar draws meysydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Petai 'Arc Ddeheuol' Caerdydd, o Drelái yn y Gorllewin i Trowbridge yn y Dwyrain, yn cael ei hystyried yn un awdurdod lleol, hwn fyddai'r tlotaf yng Nghymru o gryn dipyn.
- **Dadansoddiad cymunedol (Proffiliau wardiau)** – mae'r rhain yn rhoi trosolwg o les ar lefel leol i gynnwys dinasyddion a'u cynrychiolwyr lleol yn y materion sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae'r proffiliau'n cynnwys prif ddangosyddion sy'n ymwneud â phob un o'r themâu a'r amcanion sy'n strwythuro'r asesiad lles lleol.
- **Tueddiadau'r Dyfodol:** Mae adroddiad tueddiadau'r dyfodol yn ystyried tueddiadau tymor hwy sy'n wynebu'r ddinas, gan ddefnyddio sail dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi lle bo ar gael.

3. Sail Dystiolaeth

Mae'r asesiad yn defnyddio ystod eang o ffynonellau meintiol ac ansoddol i nodi lle mae'r ddinas yn perfformio'n dda, lle mae angen iddi wella a'i heriau allweddol.

Setiau Data ac Adroddiadau Partneriaid

Mae'r asesiad yn defnyddio setiau data mewn perthynas â'r 46 Dangosydd Cenedlaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i ddangos cynnydd tuag at y Nodau Lles cenedlaethol, yn ogystal â setiau data a argymhellir gan bartneriaid y BGC a rhanddeiliaid eraill.

Mae ystod eang o adroddiadau partner yn llywio'r materion a godwyd yn yr asesiad; er enghraifft, Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2020, 'Gadael Neb Ar Ôl', Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SONARR) CNC ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2021.

Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022

Fel yr amlygwyd, mae Asesiad Lles Lleol Caerdydd wedi'i ddatblygu ar yr un pryd â'r [Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg](#). Felly, mae'r Asesiad Lles Lleol yn defnyddio, ac yn adlewyrchu, y data a ddefnyddiwyd a'r ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB).

Defnyddiwyd nifer o ddulliau gwahanol i gasglu gwybodaeth er mwyn llunio AAB cyfannol a chynhwysfawr. Yn gyntaf, nodwyd data, adroddiadau ac ymchwil presennol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys data gan sefydliadau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Cynhaliwyd ymgysylltu penodol, gan gynnwys arolygon ar gyfer y boblogaeth gyffredinol o oedolion, plant a phobl ifanc, trigolion CEM Caerdydd, ac ar gyfer gweithwyr proffesiynol a darparwyr. Yn ogystal, cynhaliodd, arweiniodd a chefnogodd sefydliadau trydydd sector lleol dri ar hugain o grwpiau ffocws.

Ymgysylltu Dinasyddion

Mae'r asesiad wedi'i lywio gan waith Canolfan Ymchwil Caerdydd (CYC). Mae gwaith eang y Ganolfan yn cynnwys:

- Prosiectau ymchwil ac ymgynghori meintiol ac ansoddol
- Casglu, dadansoddi a dehongli data sylfaenol arolygon
- Dadansoddi a dehongli amrywiaeth eang o ddata demograffig ac economaidd-gymdeithasol gan gynnwys y Cyfrifiad a'r holl ffynonellau eraill o'r amgylchedd data ehangach.
- Astudiaethau arbenigol ar amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys ffynonellau data cymdeithasol, economaidd a demograffig.

Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu a Ystyriwyd

Felly, mae'r gwaith ymgysylltu canlynol wedi'i ystyried yn yr Asesiad Lles Lleol, sy'n cynnwys ystod o ddata sylfaenol ansoddol a meintiol gan ddinasyddion.

Mae gwaith ymgysylltu yn arbennig o ddefnyddiol gan fod ymatebion fel arfer yn cael eu dadansoddi yn ôl oedran, rhyw, cefndir ethnig, Siaradwyr Cymraeg, pobl ag anabledd a phobl sy'n byw yn ardaloedd lleiaf neu fwyaf difreintiedig y ddinas.

Ymgysylltu Blynyddol

- Arolwg Holi Caerdydd⁴: Holi Caerdydd yw'r arolwg blynyddol sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd. Mae'r arolwg yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd, ac ymwelwyr â'r ddinas, i rannu eu profiad gyda gwasanaethau cyhoeddus: y profiadau da a'r meysydd y gellid eu gwella. Mae'r cwestiynau'n eang – o ofal cymdeithasol ac iechyd a lles, i dai, swyddi/yr economi, yn ogystal â diogelwch cymunedol – ac fe'u cedwir yn weddol debyg bob blwyddyn er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau. Mae llawer o'r cwestiynau'n rhoi cyfle i ddinasyddion ddarparu ymateb penagored. Gellir dod o hyd i'r cwestiynau a holwyd yn 2021 yma.
- Ymgynghoriad ar y Gyllideb: Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus y ddinas gyfan ar Gyngor Caerdydd bob blwyddyn, gan roi cyfle i ddinasyddion ddweud eu dweud am gynlluniau cyllideb, gan gynnwys blaenoriaethau.

Ymgysylltu Thematig

- Ymgysylltu Gwyrddach, Tecach a Chryfach (2021): Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu a digwyddiadau i randdeiliaid i lywio Strategaeth Adfer ac Adnewyddu Dinas 'Werddach, Decach, Gryfach' olaf y ddinas, gan gynnwys sut y dylai Caerdydd ymateb i'r heriau a wynebir yn y byd ar ôl y cyfnod clo.
- Ymgynghoriad Caerdydd Un Blaned (2021): Cynhaliwyd ymgynghoriad ac ymarfer ymgysylltu eang a manwl cyn cyhoeddi strategaeth derfynol y Cyngor ar gyfer Caerdydd Un Blaned. Fel rhan o hyn, gofynnwyd i ymatebwyr roi adborth ar y themâu maes gweithredu a gynigiwyd yn y strategaeth ddrafft, a rhoi syniad o sut y dylid blaenoriaethu'r syniadau arfaethedig.
- Ymgynghoriad Dinas Gyfan ar y Strategaeth Fwyd (2021): Gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd a grwpiau, sefydliadau a busnesau i roi eu barn ar Strategaeth Fwyd arfaethedig y ddinas, sy'n ceisio hyrwyddo bwyd iach, cynaliadwy a moesegol ledled y ddinas.
- Arolwg Map Ffordd Dinas Glyfar (2020): Rhoddwyd cyfle i ddinasyddion roi sylwadau ar Fap Ffordd Dinas Glyfar arfaethedig Caerdydd, sy'n archwilio'r defnydd o dechnoleg a data i wella bywydau'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r ddinas.

⁴ Sylwer bod y ddolen a ddarparwyd yn arwain at adroddiad arolwg 'Holi Caerdydd 2021', a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2021. O fewn yr Asesiad Lles Lleol, fodd bynnag, ystyrir [Canlyniadau Holi Caerdydd 2020](#), gan nad oedd adroddiad 2021 ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

- Arolwg Caerdydd sy'n Dda i Blant (2019): Nod arolwg Caerdydd sy'n Dda i Blant oedd casglu barn plant ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys deall eu hymwybyddiaeth o Hawliau Plant, boddhad â'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a pha faterion sy'n bwysig iddynt.
- Ymgynghoriad Trafnidiaeth ac Aer Glân (2019): Gwahoddwyd cymunedau ledled Caerdydd i roi eu barn ar Bapur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd, a oedd yn cynnwys syniadau a chynigion ynghylch gwella trafndiaeth ac ansawdd aer yng Nghaerdydd. Arweiniodd hyn yn y pen draw at gyhoeddi'r Papur Gwyn Trafnidiaeth.
- Ymgynghoriad Aer Glân (2019): Roedd Ymgynghoriad Aer Glân Cyngor Caerdydd yn galluogi trigolion, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol ledled y ddinas, i roi sylwadau ar gynigion i fynd i'r afael â llygredd aer ledled y ddinas.
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth Gwastraff (2018): Nod ymgynghoriad y Strategaeth Gwastraff oedd deall barn trigolion ar amrywiaeth o gynigion, yn ogystal â deall agweddau ac ymddygiad tuag at wastraff. Mae Cyngor Caerdydd wrthi'n ymgynghori â thrigolion mewn perthynas â'i Strategaeth Ailgylchu a Gwastraff ddrafft newydd (2021-25) (daw'r ymgynghoriad i ben ar 27 Mawrth 2022).

Gallwch ddarllen yr holl adroddiadau a gyhoeddwyd gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd yma. Mae'r adroddiadau'n dadansoddi canlyniadau arolygon a gynhelir gan y ganolfan a gellir eu hidlo yn ôl pwnc, dyddiad cyhoeddi neu ward.

Methodoleg

Cyn y pandemig Covid-19, byddai arolygon ac ymarferion ymgynghori fel arfer yn cynnwys ymgysylltu 'wyneb yn wyneb' i annog pobl i gymryd rhan ac ymateb iddynt – yn enwedig lle'r oedd angen data ansoddol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- Defnyddio grwpiau Ffrindiau a Chymdogion, yn ogystal â sefydliadau/grwpiau hysbys eraill, i ymgysylltu â grwpiau sydd fel arfer wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys pobl iau (16-24 oed), grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r bobl hynny sy'n byw yn ne a dwyrain y ddinas.
- Cyfweiliadau wyneb yn wyneb
- Grwpiau ffocws
- Gweithdai
- Sesiynau galw heibio mewn Hybiau lleol, gyda phwyslais arbennig ar ardaloedd daearyddol lle mae'r ymateb fel arfer yn isel
- Dosbarthu copiâu papur o arolygon mewn adeiladau cymunedol
- Gosod taflenni mewn canolfannau busnes lleol, meddygfeydd a mannau preswyl penodol

Ers 2020, mae mesurau a gyflwynwyd i leihau lledaeniad Covid-19 wedi golygu nad yw dulliau traddodiadol o ymgysylltu, megis dosbarthu copiâu papur o arolygon mewn adeiladau cymunedol neu gynnal cyfweiliadau neu weithdai wyneb yn wyneb, naill ai ddim ar gael neu'n anymarferol. Y ffactor sy'n gyfrifol am hyn yw'r gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb, a chyfyngiadau ar nifer y bobl y caniateir iddynt ymgynnull dan do. Gwelwyd hefyd rhai aelodau o'r cyhoedd yn petruso i ymgysylltu gan ddefnyddio dulliau traddodiadol ar ôl i gyfyngiadau'r cyfnod clo cael eu llacio hyd yn oed.

Er mwyn hyrwyddo arolygon ac ymgynghori mor eang â phosibl, fodd bynnag, defnyddiwyd y dulliau canlynol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gasglu data sylfaenol:

1. E-bost, gan gynnwys:
 - Sefydliadau y gwyddys eu bod yn gweithio gyda grwpiau a glywir yn llai aml
 - Cyngor Ieuencid Caerdydd
 - Panel Dinasyddion Caerdydd
2. Rhyngrwyd/Mewnrwyd
 - Rhoddwyd dolenni i arolygon ac ymgynghoriadau ar wefannau, megis gwefan y Cyngor, gyda 'fffenestri naid' wedi'u cynnwys ar dudalennau â thraffig uchel.
 - Tynnwyd sylw cyflogaion at yr ymarfer ymgysylltu drwy'r Fewnrwyd a Gwybodaeth Staff.
3. Y Cyfryngau Cymdeithasol
 - Mae arolygon ac ymgynghoriadau wedi cael eu hyrwyddo drwy Facebook a Twitter. Cafodd demograffeg benodol ei thargedu ar y cyfryngau cymdeithasol, megis pobl ifanc a'r rhai yn ne a dwyrain y ddinas. Cafodd negeseuon eu postio ar dudalennau cymunedol hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol.
4. Arolygon Papur
 - Yn ymwybodol na fyddai gan bob preswlydd y gallu i gael gafael ar arolygon a'u cwblhau'n ddigidol, roedd modd gofyn am gopiâu papur o arolygon drwy ffonio Cysylltu â Chaerdydd, a chafodd cyfweiliadau eu cynnig dros y ffôn lle roedd hynny'n briodol.
5. Llwyfannau Cyfathrebu
 - Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu, lle bu'n bosibl, gan ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu fel Microsoft Teams a Zoom. Mae hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol lle bu angen data ansoddol.

Adolygiadau ac Asesiadau Statudol

Mae nifer o adolygiadau ac asesiadau statudol, y mae'n rhaid i'r asesiad gyfeirio atynt, wedi'u crynhoi yn **Atodiad A**.

Cyfyngiadau Data

Datblygwyd yr asesiad yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael ac felly mae'n rhoi cipolwg o gyfnod penodol. Gan nad yw data Cyfrifiad 2021 wedi'i ryddhau eto – ac er mwyn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi Asesiad Lles, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – defnyddiwyd data Cyfrifiad 2011 drwy gydol yr adroddiad. Cydnabyddir bod y data hwn felly yn hen a bydd data perthnasol yn cael ei gyhoeddi pan gyhoeddir canlyniadau Cyfrifiad 2021.

Lle bo'n bosibl, mae data wedi'i rannu i ystyried y 'nodweddion gwarchoddedig', fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb (2010). Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth ystyried y gwaith ymgysylltu sydd

wedi llywio'r asesiad, gan y gofynnir i ymatebwyr am wybodaeth, megis eu hoedran, rhyw, cefndir ethnig ac ati, wrth roi ateb.

Ystyrir anfantais economaidd-gymdeithasol, yn arbennig, drwy gydol yr asesiad – gyda'r gydnabyddiaeth y gall fod yn anghymesur, mewn cymunedau buddiant a chymunedau o le, gan arwain at anghydraddoldeb pellach o ran canlyniadau. Cydnabyddir, fodd bynnag, y gellir gwaethygu anghydraddoldeb canlyniadau ymhellach wrth ystyried ei natur gydgysylltiedig ac felly ni ellir ac ni ddylid deall un math o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd, p'un a yw hynny'n seiliedig ar hil, rhyw, rhywioldeb, anabled, dosbarth cymdeithasol, oedran, neu ffydd. Mae cyfyngiadau yn y data sydd ar gael yn golygu na all yr asesiad bob amser archwilio ffactorau cydgysylltiedig yn fanwl. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn cau'r bwch hwn rhywfaint drwy ystyried amrywiaeth eang o lenyddiaeth ac adroddiadau lleol a chenedlaethol.

At hynny, oherwydd cyfyngiadau'r pandemig Covid-19, ni fu'n bosibl trefnu sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd wyneb yn wyneb ac felly mae'r asesiad wedi defnyddio'r arolygon a nodwyd uchod. Dylid nodi hefyd nad yw'r asesiad, mewn llawer o achosion, yn dangos effaith lawn y pandemig Covid-19 byd-eang oherwydd bod rhai setiau data wedi'u hatal.

4. Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd Asesiad Lles Lleol drafft Caerdydd 2022 ar gyfer ymgynghoriad ar 24 Ionawr a daeth i ben ddydd Llun 21 Chwefror 2022 ar ôl 4 wythnos.

Cyhoeddwyd yr asesiad ar wefan Partneriaeth Caerdydd y BGC gan wahodd ymgynghoreion statudol i roi sylwadau ynghylch a oeddent yn cytuno â'i ddadansoddiad o gryfderau a heriau Caerdydd. Hwrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy bartneriaid y BGC a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Gweinidogion Cymru
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad y Cyngor
- Cyfranogwyr a phartneriaid eraill a wahoddwyd gan y Bwrdd
- Cynghorau Cymuned
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)
- Cynrychiolwyr preswylwyr yr ardal;
- Cynrychiolwyr busnesau'r ardal;
- Undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yn yr ardal;
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Trigolion Caerdydd
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg i Gymru
- Menter Caerdydd

Cafwyd adborth gan y rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyfoeth Naturiol Cymru

5. Y Camau Nesaf

Bydd y dystiolaeth a ddarperir ar gyfer yr asesiad hwn yn fan cychwyn ar gyfer cynnal asesiad manylach o'r materion y mae'n eu codi i lywio'r gwaith o lunio Cynllun Lles Caerdydd. Bydd hyn yn ei dro yn mynd i'r afael â bylchau yn y dystiolaeth a bydd yn dechrau proses o ddiweddarau'r sylfaen dystiolaeth yn barhaus.

Mae dangosfwrdd ar-lein dinas gyfan wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer Caerdydd a fydd yn galluogi'r asesiad lles lleol i ddod yn adnodd byw a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu asesiadau a Chynlluniau Lles yn y dyfodol. Bydd hefyd yn helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch gwaith y BGC.

Atodiad A

Adolygiadau ac Aseidiadau Statudol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried nifer o aseidiadau ac adolygiadau wrth baratoi'r Aseiad Lles. Crynhoir y rhain isod ynghyd ag aseidiadau eraill a gyfrannodd at ddadansoddiad Caerdydd o les y ddinas.

1. Newid yn yr Hinsawdd

a) Aseiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU – Crynodeb am Gymru 2021

Mae hyn yn rhoi aseiad cenedlaethol o'r risgiau a'r cyfleoedd posib sy'n deillio o newid hinsawdd. Mae'r [aseiad](#) yn nodi mai'r risgiau mwyaf arwyddocaol i Gymru yw:

- Effeithiau ar yr amgylchedd naturiol sy'n bygwth rhywogaethau'r tir, dŵr croyw, arfordirol a morol, coedwigoedd ac amaethyddiaeth.
- Cynnydd yn nifer/canlyniadau plâu, pathogenau a rhywogaethau goresgynnol
- Difrod i seilwaith oherwydd tywydd eithafol ac erydu'r arfordir, gan gynnwys ynni, trafniadaeth, dŵr a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
- Tymheredd uwch yn cael effaith ar iechyd a lles pobl.
- Tarfu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd bod tywydd eithafol yn digwydd yn amlach.
- Llifogydd mewn cartrefi, cymunedau a busnesau yn fwy difrifol ac yn digwydd yn amlach
- Lefel y môr yn codi, gorlifo'r glannau ac erydu yn cael effaith ar fusnesau arfordirol
- Difrod i asedau treftadaeth ddiwylliannol o ganlyniad i newid tymheredd, llifogydd a newidiadau yn y dirwedd.
- Risgiau i argaeledd a diogelwch bwyd oherwydd effeithiau newid hinsawdd yn rhyngwladol.

b) Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (AaSAN) am Gymru 2020 (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Mae'r [Adroddiad](#) hwn yn nodi rhai o'r heriau allweddol y bydd angen mynd i'r afael â hwy os yw Cymru am gyflawni'r pedwar nod hirdymor er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (RhANG):

- Mae adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u cyfoethogi
- Ecosystemau sy'n wydn i allu wynebu newidiadau a ddisgwylir a rhai annisgwyl
- Mae gan Gymru lefydd iach i bobl, a warchodir rhag risgiau amgylcheddol
- Economi adfywiol nad yw'n gweithredu ar draul yr amgylchedd.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd newid trawsnewidiol yn ein systemau bwyd, trafniadaeth ac ynni, a'r angen i drin yr argyfyngau natur a hinsawdd mewn dull integredig. Cyfeirir at Strategaeth Un Blaned Caerdydd fel enghraifft o weithredu fel hyn.

c) Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Datganiad Ardal Canol De Cymru

Mae gan CNC ddyletswydd dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyhoeddi "datganiadau ardal" am yr ardaloedd hynny yng Nghymru sydd yn eu barn hwy yn briodol er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'r polisi cenedlaethol ar adnoddau naturiol. Mae [Datganiad Ardal Canol De Cymru](#) yn cynnwys Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu ardal benodol a sut y gellir rheoli adnoddau naturiol yn well er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (RhANG).

Heriau allweddol

1. *Newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth* - I Gaerdydd yn benodol, mae'n fater o reoli effeithiau amgylcheddol twf (gan gynnwys pwysau datblygu ar ecosystemau cyfagos) ac addasu i newid hinsawdd (trwy seilwaith gwyrdd ac atebion eraill seiliedig ar natur) mewn dull gwydn a chynaliadwy.
2. *Ail-adeiladu Ecosystemau Gwydn* - Ecosystemau sy'n sicrhau bod natur yn gweithio gyda ni a throsom ni, yn hytrach nag yn ein herbyn. Bydd datblygu ein dealltwriaeth o ystyr gwytnwch ecosystemau yn rhoi manteision i ni yn awr yn ein helpu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.
3. *Cysylltu pobl a natur* – Deall ac ymchwilio i'r cysylltiad rhwng pobl a natur er mwyn sicrhau y rhoddir y gwerth priodol ar amgylchedd naturiol Canol a De Cymru a nodi'r prosesau gwneud penderfyniadau a all gyflawni RhANG.
4. *Gweithio gyda'n hamgylchedd dŵr* – Mae'r ardal yn dioddef o waddol cyrff afonydd sydd wedi addasu llawer, seilwaith hynafol a'r llygredd a risgiau llifogydd sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'n cydnabod yr angen i ofalu bod amgylcheddau dŵr Canol a De Cymru yn cael eu gwarchod a'u cyfoethogi, a bod eu gwerth yn cael eu cydnabod.
5. *Gwella canlyniadau iechyd pobl trwy'r amgylchedd naturiol* – Wrth i ddisgwyliad oes ddechrau gostwng am y tro cyntaf mewn degawdau a chydag anghydraddoldebau iechyd yn cynyddu, gall adnoddau naturiol helpu i ymdrin â rhai o'r heriau mawr, gan gynnwys llygredd aer a sŵn, llifogydd neu broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â diffyg ymarfer corff.
6. *Gwella ansawdd aer a all effeithio ar iechyd, lles a bioamrywiaeth* - Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn disgrifio ansawdd aer gwael fel argyfwng iechyd cyhoeddus o bwys, ail yn unig i smygu. Nid oes y fath beth â lefelau diogel o lygredd aer. Rhaid cydnabod rôl ecosystemau gwydn mewn gwella ansawdd aer Canol De Cymru, gan roi'r amgylchedd naturiol wrth galon yr ateb.

d) Asesiad o Effaith Newid Hinsawdd ar Iechyd yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Disgwylir cyhoeddi'r asesiad hwn ar ddechrau 2022. Ond cyn hyn, ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru infograffeg ar [Effeithiau Newid Hinsawdd ar Iechyd a Lles](#) gan gyfrannu at wybodaeth a ryddhawyd yng nghynhadledd ryngwladol newid hinsawdd, COP 26.

Mae'r infograffeg yn disgrifio effeithiau posib newid hinsawdd ar iechyd a lles yng Nghymru – boed yn gorfforol, meddyliol neu gymdeithasol – ac yn amlygu'r ffaith na fydd newid hinsawdd yn effeithio ar bawb i'r un graddau. Bydd tywydd eithafol yn cael cryn effaith ar iechyd a lles, yn ogystal ag ar grwpiau arbennig mewn cymdeithas.

Mae pobl ar incwm isel yn llai tebygol o feddu ar yr adnoddau i ymaddasu neu adfer o lifogydd neu fathau eraill o dywydd eithafol. Gallai bygythiadau i sicrwydd bwyd weld codiadau posib yng nghostau bwyd, ac y mae'r sawl sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais cymdeithasol-economaidd yn fwy tebygol o wynebu crynodiadau uwch o lygredd aer.

Gallai tywydd mwy eithafol hefyd gael cryn effaith ar bobl hŷn. Yn ogystal ag wynebu mwy o risg o salwch a marwolaeth cysylltiedig â gwres, gall ynysu cymdeithasol gynyddu yn ystod tywydd poeth. Mae pobl hŷn yn arbennig o agored i niwed yn ystod llifogydd a allai darfu ar eu cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae oedolion hyn hefyd yn fwy agored i effeithiau ansawdd aer gwael.

Mae pobl ag anabledau a chyflyrau iechyd tymor hir hefyd yn arbennig o agored i niwed yn ystod tywydd poeth a llifogydd. Gall tywydd poeth gael effaith negyddol ar gyflyrau fel problemau iechyd meddwl, clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol, a diabetes. Gall diffyg cwsg yn ystod tywydd poeth hefyd gael cryn effaith.

Mae'r asesiad yn amlygu'r angen i ymdrin ag ansawdd aer ac addasu seilwaith y ddinas, ein cartrefi a'n mannau gwaith i liniaru effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol ar iechyd a lles.

2. Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Meithrinfeydd

Yn unol â rheoliadau a wnaed dan adran 26(1) Deddf Gofal plant 2006 (c.21), ac adran 119(5) (a) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (c.31), cynhelir Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Meithrinfeydd llawn bob tair blynedd.

Nododd yr [Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Meithrinfeydd](#) a gynhaliwyd yn 2017 nad oedd unrhyw fylchau sylweddol o ran digonolrwydd gofal plant, a bod gofal plant a darpariaeth feithrin yn diwallu anghenion mwyafrif helaeth o deuluoedd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, nodwyd bod disgwyl i'r galw am ofal plant y tu allan i'r ysgol a lleoedd meithrin gynyddu oherwydd newidiadau yn y system les a'r twf a ragwelir ym mhoblogaeth Caerdydd.

Cafodd yr [asesiad diweddaraf](#) ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghori ym mis Rhagfyr 2021. Mae canfyddiadau cychwynnol yr asesiad drafft yn dangos bod digon o ofal plant ar draws Caerdydd ar y cyfan i ddiwallu anghenion rhieni fel y gallant weithio a/neu ymgymryd â hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos:

- Bod rhywfaint o alw heb ei fodloni mewn rhai ardaloedd, mewn gwasanaethau gofal plant penodol ac mewn mathau penodol o ddarpariaeth gofal plant.
- Mae angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael i helpu i dalu am ofal plant.
- Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod mwy o sectorau a lleoliadau yn gwbl ymwybodol o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'u cyfrifoldebau. Bod pryderon wedi'u codi ynghylch recriwtio a chadw staff gofal plant cymwysedig ledled y ddinas
- Mae pryderon ynghylch cadernid y data a ddefnyddir wrth gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

3. Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae chwarae yn hawl sylfaenol sydd wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn unol ag Adran 11 Mesur plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, cynhaliodd Cyngor Caerdydd ei [Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae](#) diweddaraf yn 2019.

Daeth Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019 i'r casgliad bod cynnydd da wedi ei wneud o ran darparu cyfleoedd i blant allu cyrchu chwarae. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd o hyd lle'r oedd angen mwy o welliant. Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd gwreiddio agwedd hawliau plant

mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan greu amgylcheddau cyfeillgar i blant a all roi cyfleoedd ar gyfer chwarae. Nododd yr asesiad y blaenoriaethau allweddol isod ar gyfer gwella a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae:

- Gwella mynediad i dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol;
- Sicrhau digon o gyfleoedd chwarae o fewn oriau ysgol;
- Datblygu cyfleoedd mewn ardaloedd mwy gwledig ac ardaloedd o amddifadedd chwarae uchel.
- Datblygu dealltwriaeth o ofnion chwarae ar draws Meysydd Gwasanaeth ymhellach
- Sicrhau cyfraniad gan grwpiau anabledd a darparwyr chwarae
- Adolygu Model Newydd Cyflwyno Cyfleoedd Chwarae i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ledled Caerdydd
- Cael cyllid allanol i ddatblygu cyfleoedd i ddatblygu chwarae cymunedol
- Cyflwyno rhaglen o fesurau ffyrdd/llwybrau beicio i wella diogelwch a mynediad
- Datblygu ac ehangu'r Fenter Chwarae mewn Strydoedd i wella cyfleoedd i blant a theuluoedd chwarae yn eu cymunedau a sicrhau strydoedd mwy diogel i chwarae ynddynt.
- Sicrhau cyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd i ymwneud â datblygu gwasanaethau

Ers yr asesiad hwn, gwnaed cynnydd yn erbyn nifer o'r blaenoriaethau hyn gyda Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant ac ymrwymiad y ddinas i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant er mwyn hyrwyddo'r blaenoriaethau hyn. Rhagwelir y bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cael ei ddiweddarau nesaf yn 2022.

4. Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022

Rhoddodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion y boblogaeth gan asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, gan gynnwys gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Datblygwyd asesiad lles lleol Caerdydd ochr yn ochr ag asesiad Caerdydd a Bro Morgannwg 2022 a dylid ei ystyried yn ddogfennau ategol. Gellir gweld Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 [yma](#).

5. Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 - Asesiadau Strategol

Fel rhan o ddull integredig o asesu lles lleol, cynhaliwyd asesiad strategol o drosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r asesiadau hyn i'w gweld yn amcanion Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael eich Magu a Chymunedau Diogel, Hyderus a Grymus. Mae'r asesiadau'n defnyddio Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro 2022 y dylid ei ystyried yn ddogfen ategol i asesiad lles Caerdydd. Fe'u hysbysir hefyd gan Gynllun Troseddu Heddlu De Cymru 2021-25 ac asesiadau misol Caerdydd sy'n llywio gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru wedi cynnal arolwg yn gofyn am adborth gan drigolion ar ganfyddiadau o ddiogelwch a safbwyntiau ar blismona lleol. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried pan fyddant ar gael, wrth i ni adeiladu ar yr asesiad i ddatblygu'r cynllun lles.

6. Cynllun Datblygu Lleol

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) presennol Caerdydd yn cwmpasu'r cyfnod cynllunio 2006-2026 a gellir dod o hyd iddo [yma](#). Yn ogystal â rhoi canllaw i ddatblygu a defnyddio tir yng Nghaerdydd,

mae'r CDLI yn nodi rhai o oblygiadau'r twf a ragwelir yng Nghaerdydd, gan gynnwys yr angen am fwy o gartrefi a mwy o swyddi.

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd yn cael ei baratoi ar gyfer Caerdydd ar hyn o bryd a fydd yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2036, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar 3 senario twf rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Chwefror 2022. Mae'r opsiynau'n caniatáu ystyried gwahanol lefelau o dwf mewn swyddi a chartrefi:

- Opsiwn A (Llinell Sylfaen): Cyfanswm o tua 19,000 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 2,140 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 30,000 o swyddi newydd.
- Opsiwn B: Cyfanswm o tua 24,000 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 7,640 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 32,300 o swyddi newydd.
- Opsiwn C: Cyfanswm o tua 30,500 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 14,790 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 43,000 o swyddi newydd.

7. Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2021

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwybodaeth am dueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar gyflawni nodau lles cenedlaethol Cymru, a gellir eu gweld [yma](#)

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar bedwar tueddiad mawr:

- Pobl a'r boblogaeth
- Anghydraddoldeb
- Iechyd a therfynau'r blaned
- Technoleg

Mae hefyd yn ystyried Cyllid Cyhoeddus yn ogystal â gofynion y Sector Cyhoeddus a Digidol.

Defnyddiwyd yr adroddiad i ddatblygu Caerdydd Yfory fel rhan o'r asesiad lles hwn.